# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020

# Cydweithrediad LEADER 2014 – 2020 – Canllawiau Atodol

© Crown Copyright 2015 ISBN Number: 978-1-4734-7929-6

**Cydweithrediad LEADER 2014-2020 – Is-Fesur Canllawiau Atodol 19.3:**

***Paratoi a rhoi gweithgareddau Cydweithredu'r Grŵp Gweithredu Lleol ar waith***

Dogfen ganllaw atodol yw hon sy'n canolbwyntio ar Fesur 19.3: paratoi a rhoi gweithgareddau Cydweithredu'r Grŵp Gweithredu Lleol ar waith. Dylid darllen y ddogfen hon ynghyd â dogfennau Llywodraeth Cymru, ac nid yw'n eu disodli: "Canllawiau LEADER" a "Canllawiau Strategaethau Datblygu Lleol LEADER".

Mae'r Nodiadau Canllaw hyn er gwybodaeth ac ni fwriedir iddynt ddisodli Rheoliadau perthnasol yr UE, rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol a/neu ddeddfwriaeth ddomestig Cymru, ac nid yw'r Nodiadau hyn ychwaith yn ddehongliad diffiniol o'r fframweithiau cyfreithiol hynny. Noder y gallai'r rheolau manwl ar gyfer cymhwysedd gweithgareddau a/neu wariant newid drwy gydol cyfnod y Rhaglen.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi datblygu canllawiau ar gyfer rhoi gweithgareddau Cydweithredu LEADER ar waith ar gyfer y cyfnod 2014 i 2020. Mae'r ddogfen gyfeirio hon yn nodi fframwaith y Comisiwn a'r prosesau allweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni camau cydweithredu LEADER.

http://docs.enrd.eu/newsletter/20141119_LEADER_Cooperation-Guide-2014-20.pdf

**Cyflwyniad a chefndir**

Mae **LEADER** yn ddull datblygu lleol (CLLD) o dan arweiniad y gymuned sydd wedi'i ddefnyddio ers dros 20 mlynedd i gynnwys unigolion lleol wrth gynllunio a chyflwyno strategaethau, gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau ar gyfer datblygu eu hardaloedd gwledig.

Mae cydweithredu yn un o 7 egwyddor allweddol dull LEADER. Hefyd, mae gan EAFRD a'r EMFF ddarpariaethau penodol ar gyfer Cydweithrediad CLLD.

Mae'r gefnogaeth i Gydweithredu yn elfen orfodol o fesur LEADER ym mhob Rhaglen Datblygu Gwledig.

Gall cydweithrediad ardal Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl) ag ardaloedd daearyddol eraill fod yn elfen allweddol o Strategaeth Datblygu Lleol GGLl neu ased ychwanegol i'r strategaeth hon. Gall cydweithredu esblygu fesul cam o gyfnewid profiadau, i drosglwyddo arfer addawol i weithgaredd cyffredin. Cydweithredu â thiriogaethau eraill sy'n gweithredu LEADER neu fathau eraill o Lleol a Arweinir gan y Gymuned

Gall datblygu (CLLD) hefyd fod yn offeryn strategol y gall y Grŵp Gweithredu Lleol ei ddefnyddio i gyrraedd y màs critigol sydd ei angen ar gyfer rhai prosiectau neu i gyfuno adnoddau ac arbenigedd ategol.

Yn ogystal â chydweithredu rhwng tiriogaethau (rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol o fewn Aelod-wladwriaeth), mae cydweithredu trawswladol yn rhoi gwerth ychwanegol Ewropeaidd atodol i ddatblygu lleol.

Mae cydweithredu yn ffordd o ehangu safbwyntiau lleol a dod â gwybodaeth newydd i'r ardal er mwyn gwella strategaethau lleol. Gall hybu cymeriad arloesol camau datblygu lleol a chyfrannu at fwy o gystadleurwydd yn yr ardal drwy e.e. meithrin gallu, cyflwyno partneriaid busnes newydd, lledaenu arloesedd, gwybodaeth a sgiliau newydd.

Mae cydweithredu yn elfen orfodol o fesur LEADER yng Nghymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, felly, mae'n ofynnol i bob GGLl ymgymryd ag o leiaf un prosiect neu weithgaredd cydweithredu yn ystod cyfnod y rhaglen.

**Cwmpas Cydweithrediad LEADER 2014-2020**

Nodir ystod a chwmpas daearyddol partneriaid posibl y gall Grwpiau Gweithredu Lleol gydweithredu â hwy o dan fesur LEADER yn Erthygl 44 (2) o Reoliad (UE) Rhif 1305/2013. Dehonglir hyn yn eithaf eang gan ystyried y gwahanol fathau o bartneriaethau presennol o ardaloedd gwledig ag ardaloedd daearyddol eraill o fewn a thu allan i'r UE

Ar wahân i grwpiau gweithredu lleol eraill, gall partneriaid grŵp gweithredu lleol o dan yr EAFRD fod yn:

(a) grŵp o bartneriaid cyhoeddus a phreifat lleol mewn tiriogaeth wledig sy'n gweithredu strategaeth datblygu lleol o fewn neu y tu allan i'r Undeb. Rhaid i gwmpas gweithredu'r grŵp hwn fod yn debyg i gwmpas y Grŵp Gweithredu Lleol, ond nid oes rhaid iddo gydymffurfio â'r holl nodweddion a nodir yn Erthygl 33 o Reoliad (UE) Rhif 1303/2013 ynghylch strategaethau datblygu lleol a arweinir gan y Gymuned;

(b) grŵp o bartneriaid cyhoeddus a phreifat lleol mewn tiriogaeth nad yw'n wledig sy'n gweithredu strategaeth datblygu lleol.

Fodd bynnag, dim ond prosiectau a ddewisir gan Grwpiau Gweithredu Lleol o dan fesur LEADER sy'n gymwys i gael arian gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

**Cydweithrediad LEADER yng Nghymru – cymharu'r dull gweithredu rhwng 2007-2013 a chyfnodau 2014-2020** ***Cyfnod y rhaglen: 2007-2013***

• 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol (GGLl)

• Cynhaliwyd **8** prosiect Cymorth Technegol Paratoadol

• Rhoddwyd **3** phrosiect Cydweithredu trawswladol ar waith

• Rhoddwyd 16 o brosiectau Cydweithredu rhyng-diriogaethol ar waith

• Y Grwpiau Gweithredu Lleol yn cynnig prosiectau i'w dethol gan Lywodraeth Cymru (fel yr Awdurdod Rheoli)

• I ddechrau roedd proses dreigl yna yn ddiweddarach yng nghyfnod y Rhaglen symudodd hyn i gylchoedd ymgeisio

• Gwnaeth y Grwpiau Gweithredu Lleol gyflwyniad a chymryd rhan mewn cyfweliad panel fel rhan o'r broses ddethol yn ogystal â chyflwyno ffurflen gais ysgrifenedig

**Cydweithrediad LEADER yng Nghymru** - ***Cyfnod Rhaglen 2014-2020:***

• 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol sy'n cwmpasu wardiau cymwys o 21 o'r 22 ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru.

• Mae Strategaethau Datblygu Lleol (LDS) wedi'u cymeradwyo a chytunwyd ar ddyraniadau'r gyllideb.

• Mae pob LDS yn cynnwys ymrwymiad i ymgymryd ag o leiaf 1 prosiect Cydweithredu yn ystod cyfnod y rhaglen.

• Bydd prosiectau Cymorth Technegol a Chydweithredu Paratoadol yn cael eu dewis drwy **weithdrefn ddethol leol** a gynhelir gan y Grwpiau Gweithredu Lleol gan ddefnyddio rhan o'r gyllideb a ddyrannwyd iddynt (o dan M19.3).

• Dylai'r meini prawf cymhwysedd a dethol ddilyn yr un dull a ddefnyddir ar gyfer prosiectau lleol a weithredir o dan yr LDS. Cyfeiriwch at "Ganllawiau LEADER" Llywodraeth Cymru a "Chanllawiau Strategaethau Datblygu Lleol LEADER".

• Hyd yn oed pan fo'r detholiad, fel yng Nghymru, yn cael ei arwain gan GGLl, dylai'r broses gael ei gwneud yn glir ac yn dryloyw fel y gellir ei deall yn hawdd yn lleol a chan Grwpiau Gweithredu Lleol o Aelod-wladwriaethau eraill. Ar gyfer dewis prosiectau, argymhellir bod y GGLl yn gweithredu naill ai gyflwyniad treigl neu ffenestri ymgeisio chwarterol (4 y flwyddyn yn cau ar 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi, 31 Rhagfyr) i leihau oedi. Os defnyddir yr un dyddiadau cau gan bob GGLl yng Nghymru (ac eithrio'r rhai sydd â phroses dreigl) yna bydd hyn yn symleiddio ymgysylltiad gan Grwpiau Gweithredu Lleol y tu allan i Gymru. Fel arall, mae perygl y bydd dryswch gan fod gan Grwpiau Gweithredu Lleol derfynau amser gwahanol yng Nghymru.

• Argymhellir dod o hyd i ffyrdd o roi, er enghraifft, cymeradwyaeth dros dro wrth aros am gymeradwyaeth Awdurdodau Rheoli eraill o fewn amserlen resymol.

**<u>Cymorth Paratoadol Technegol (PTS)</u>**

Cyn cyflwyno cynnig llawn ar gyfer prosiect Cydweithredu, gall ymgeiswyr wneud cais i'r Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl) am gostau sy'n gysylltiedig â chyfnewid profiad (e.e. cyfarfodydd gyda phartneriaid posibl, ffioedd teithio, llety a dehonglwyr) neu rag-ddatblygu prosiectau (e.e. astudiaeth ddichonoldeb prosiect, ymgynghori ar faterion penodol, costau cyfieithu, costau staff ychwanegol).

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi gwneud PTS yn elfen orfodol o'r cymorth i Gydweithrediad LEADER, er mwyn rhoi hwb i'r nifer sy'n manteisio ar weithgareddau Cydweithredu gan Grwpiau Gweithredu Lleol.

Efallai bod y gwaith paratoi yn cael ei wneud ond yn y pen draw mae'r GGLl yn penderfynu peidio â chymryd rhan yn y prosiect Cydweithredu. Fodd bynnag, gellir rhoi cymorth technegol paratoadol ond o dan yr amod, ar adeg y cais, y rhagwelir gweithredu prosiect pendant. Rhaid i'r GGLl wirio cyn rhoi Cymorth Technegol Paratoadol bod yr ymgeisydd yn gallu nodi amcanion/cymeriad prosiect wedi'i gynllunio ac wedi cael digon o gyfathrebu â phartneriaid prosiect posibl i haeddu archwiliad pellach drwy Gymorth Technegol Paratoadol. Bydd angen cofnodi'r wybodaeth hon ar y ffurflen gais. Mae pob rhan o'r Deyrnas Unedig wedi cytuno i ddefnyddio templed cyffredin ar gyfer cymorth paratoadol (Atodiad 1).

## Prosiectau cydweithredu

Prosiect Cydweithredu:

"gellir ei ddisgrifio fel gweithgaredd pendant gyda darpariaethau y gellir eu nodi'n glir yn arwain at fanteision i'r tiriogaethau. Gallai prosiectau hefyd ganolbwyntio ar feithrin gallu a throsglwyddo profiad datblygu lleol drwy e.e. cyhoeddiadau cyffredin, seminarau hyfforddi, trefniadau gefeillio (cyfnewid rheolwyr rhaglenni a staff) sy'n arwain at fabwysiadu dulliau methodolegol a gweithio cyffredin neu at ymhelaethu ar waith datblygu ar y cyd neu gydgysylltiedig."

Paragraff 3.2.2 o Ganllawiau Cydweithredu LEADER y Comisiwn (19/11/2014) Mae tri phrif gategori o brosiectau Cydweithredu LEADER:

1. Prosiectau Cydweithredu Trawswladol (prosiectau rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru a phartneriaid o Aelod-wladwriaethau eraill neu bartneriaid o diriogaethau mewn trydydd gwledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd);

2. Cydweithredu Rhyng-diriogaethol (h.y. o fewn Aelod-wladwriaeth y DU: GGLl(au) Cymru yn cydweithio â GGLl(au) o'r Alban, Gogledd Iwerddon neu Loegr); a
3. Cydweithredu Rhyng-diriogaethol sy'n cynnwys Grwpiau Gweithredu Lleol Yng Nghymru yn unig.

## Prosiectau Cydweithredu Trawswladol

Bydd Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru sy'n ymwneud â phrosiect Cydweithredu trawswladol yn gyfrifol am asesu a chymeradwyo eu rhan hwy o'r

prosiect cyffredinol, yn ogystal â chyhoeddi'r dyfarniad grant, prosesu hawliadau a gwneud taliadau, yn seiliedig ar eu cyfraniad ariannol y cytunwyd arno tuag at y prosiect.

Mae templed Cytundeb Partneriaeth Trawswladol ar gael i gynorthwyo Grwpiau Gweithredu Lleol (Atodiad 2).

Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd GGLl Cymru wedi'i ddewis i weithredu fel partner arweiniol y prosiect, fodd bynnag, nid yw'r templed yn orfodol a gall y Grwpiau Gweithredu Lleol dan sylw ddewis defnyddio templed a ddarperir gan un o'r gwledydd eraill sy'n ymwneud â'r prosiect.

**Cydweithredu Rhyng-diriogaethol - DU**

Bydd prosiectau rhyng-diriogaethol yn cael eu trin a cheir adrodd arnynt ar wahân i brosiectau trawswladol. Fodd bynnag, bydd y broses o brosesu a gweinyddu prosiectau sy'n cynnwys Grwpiau Gweithredu Lleol o fewn rhannau eraill y DU i bob pwrpas yr un fath ag ar gyfer prosiectau trawswladol. Bydd Grwpiau Gweithredu Lleol Cymru yn gyfrifol am asesu a chymeradwyo eu rhan hwy o'r prosiect cyffredinol, yn ogystal â rhoi'r dyfarniad grant, prosesu hawliadau a gwneud taliadau, yn seiliedig ar eu cyfraniad ariannol y cytunwyd arno tuag at y prosiect.

**Cydweithredu Rhyng-diriogaethol – Cymru'n unig** ar gyfer Cydweithredu sy'n cynnwys Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru yn unig:

• Bydd un cais yn cael ei ddatblygu ac yna'n cael ei gyflwyno i'r holl Grwpiau Gweithredu Lleol a ddewiswyd ar yr un pryd

• Bydd y Grwpiau Gweithredu Lleol sy'n cymryd rhan yn cytuno ar GGLl Arweiniol i weinyddu'r prosiect ac yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer yr ymgeisydd

• Bydd y Corff Atebol ar gyfer y Grŵp Gweithredu Lleol Arweiniol yn gwneud yr holl daliadau ac yn eu hail-hawlio gan Lywodraeth Cymru

• Gall ail GGLl(au)/Corff/Cyrff Atebol a enwebwyd ddilysu hawliadau cyn talu

Mae templed Cytundeb Partneriaeth Cydweithredu Rhyng-diriogaethol hefyd ar gael i ymgeiswyr a Grwpiau Gweithredu Lleol ei ddefnyddio (Atodiad 3).

**Cytundebau Partneriaeth Cydweithredu**

Ym mhob math o brosiectau Cydweithredu, argymhellir bod partneriaid yn rhagddiffinio/cytuno ar y meini prawf allweddol sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau sydd i'w dewis a'u cyflawni. Mae hefyd yn bwysig bod y partneriaid yn rhoi gwybod i'w gilydd am gynnydd gyda'r prosiect ac unrhyw newidiadau i'w weithredu, er mwyn caniatáu ar gyfer addasiadau angenrheidiol sy'n sicrhau bod amcanion y prosiect y cytunwyd arnynt ar y cyd yn cael eu cyflawni. Ar ddechrau prosiect Cydweithredu

LEADER, dylai'r partneriaid lofnodi Cytundeb Partneriaeth sy'n nodi tasgau pob partner yn glir.

**Y Partner Arweiniol**

• Gall prosiectau cydweithredu ddynodi "Partner Arweiniol" (neu "Cydgysylltu LAG"): nid yw hyn yn orfodol ond fe'i hargymhellir yn fawr.

• Heb Bartner Arweiniol mae'n rhaid rhannu tasgau'n glir iawn rhwng y partneriaid a lefel uchel iawn a chyfartal o ymrwymiad.

• Gall cyfrifoldebau'r partner arweiniol gael eu cwmpasu gan gyllideb prosiect uwch na'r partneriaid eraill. Gellir ariannu hyn naill ai o gyllideb y GGLl neu'r Rhaglen ar gyfer Cydweithrediad y partner dan sylw; neu gan gyfraniad gan bartneriaid eraill y prosiect.

Fel arfer, dylai rolau a chyfrifoldebau'r partner arweiniol gynnwys:

• Llywio a chydlynu dyluniad y prosiect - gan gynnwys paratoi'r Cytundeb Partneriaeth rhwng y partneriaid;

• Cydgysylltu a monitro'r ceisiadau am gyllid gan bob partner;

• Llywio a chydlynu'r gwaith o weithredu'r prosiect a'r tasgau sydd i'w cyflawni gan bob partner (trefnu cyfnewidfeydd, allbynnau ar y cyd ac yn y blaen);

• Monitro a chyfathrebu cyflawniadau a chynnydd ariannol.

**Rôl y Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig a Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol 2014-2020**

Mae gan brosiectau cydweithredu trawswladol heriau penodol sy'n gysylltiedig â hwy oherwydd efallai y bydd angen cael gwahanol elfennau o'r costau a gymeradwywyd a'r hawliadau a delir gan wahanol Awdurdodau Rheoli. I gydnabod y materion hyn, mae gan Reoliad (UE) Rhif 1305/2013 ddarpariaethau a ddylai helpu i weithredu drwy roi rhwymedigaethau penodol ar Awdurdodau Rheoli ar gyfer rheoli cydweithredu trawswladol, yn ogystal â rhwymedigaethau ar gyfer y Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig a'r Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol, o ran y cymorth technegol ar gyfer cydweithredu trawswladol.

Mae cryn dipyn o ganllawiau am weithgareddau cydweithredu ar gael gan Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru, gwefan y Comisiwn ei hun a'r Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig.

**Mae gan Rwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop (ENRD)** Mae gan ENRD fandad clir i:

• cefnogi mentrau trawswladol a'r Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol o ran Cydweithrediad LEADER

• cydweithredu â'r cyrff rhwydweithio a chymorth technegol ar gyfer CLLD a sefydlwyd gan y Cronfeydd ESI eraill, hefyd yn arbennig o ran Cydweithredu trawswladol

**Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol (NRNs)**

Mae'r NRNs yn canolbwyntio'n benodol iawn ar ddarparu cymorth technegol a hwyluso gweithgareddau cydweithredu'r Grwpiau Gweithredu Lleol. Gellir gwneud hyn drwy wahanol hyfforddiant ac offer technegol, ond gall hefyd gynnwys darparu ymgynghoriaeth neu fentora unigol neu gyfunol.

**Uned Cefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru (WRNSU)** Yng Nghymru bydd WRNSU yn:

• hwyluso Cydweithrediad LEADER drwy gynorthwyo Grwpiau Gweithredu Lleol i nodi cyfleoedd i gydweithredu drwy gysylltu ac ysgogi syniadau.

• cysylltu â NRNs ac ENRD eraill y DU a bydd yn rhannu gwybodaeth am brosiectau Cydweithredu mewn Aelod-wladwriaethau eraill ac yn cynorthwyo Grwpiau Gweithredu Lleol gyda Chwiliad Partner

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru, fel yr Awdurdod Rheoli, gan y Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi'r gweithdrefnau gweinyddol cenedlaethol neu ranbarthol sy'n ymwneud â dethol prosiectau TNC a rhestr o gostau cymwys ar y ddwy flynedd ddiwethaf ar ôl dyddiad cymeradwyo eu Rhaglenni Datblygu Gwledig.